Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ynghylch CAFCASS Cymru, gan Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

Medi 2009

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn egluro ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad a'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Gorffennaf, yn dilyn ei ymchwiliad i'r modd y mae CAFCASS CYMRU yn gweithredu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn diolch i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol am ei archwiliad ystyriol o'r rôl y mae CAFCASS CYMRU yn ei chwarae o safbwynt darparu gwasanaethau uniongyrchol i blant a theuluoedd yn y system cyfiawnder teulu.

Caiff ymateb manwl Llywodraeth y Cynulliad i bob un o'r 26 o argymhellion a nodwyd gan y Pwyllgor ei egluro isod. Yr hyn sy'n allweddol ymhlith yr argymhellion dan sylw yw ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu defnyddio gwasanaethau eirioli ac yn gallu cynnal perthynas â'u rhieni ar adegau eithriadol o anodd, os yw'n ddiogel iddynt wneud hynny.

Mae sicrhau mwy o gydweithredu ac ymwybyddiaeth; gwella cydberthnasau ar draws gwasanaethau eirioli, ar sail cytundebau wedi'u ffurfioli lle bo hynny'n briodol; a hybu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar draws pob lefel - o bortffolios Gweinidogion i waith darparu gwasanaethau - yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwybod bod gwasanaethau eirioli ar gael iddynt; sicrhau eu bod yn deall sut i gael gafael arnynt; a sicrhau, drwy'r gwasanaethau hynny, bod gan blant a phobl ifanc lais yn y system cyfiawnder teulu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi trefniadau ar waith sy'n pennu'n glir y safonau gwasanaeth y gall teuluoedd eu disgwyl gan CAFCASS CYMRU, a ategir drwy weithredu systemau a fframwaith gwella a sicrhau ansawdd i graffu ar berfformiad ac adrodd ynghylch perfformiad yn rhan o'n hagenda ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell i Gymru.

Bydd cynnal datblygiadau a dylanwadu ar ddatblygiadau ym maes cyfraith breifat a chyfraith gyhoeddus ar lefel Llywodraeth y DU yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod ein polisïau ar gyfer plant a theuluoedd, sy'n seiliedig ar hawliau, yn cael eu gosod wrth wraidd y system cyfiawnder teulu. Bydd hefyd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i wireddu ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Caiff ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad eu hegluro isod:

YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I YMCHWILIAD Y PWYLLGOR IECHYD, LLES A LLYWODRAETH LEOL I'R MODD Y MAE CAFCASS CYMRU YN GWEITHREDU

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod canllawiau gweithredu CAFCASS yn cynnwys ymrwymiad cadarn i fod â dull sy'n seiliedig ar hawliau tuag at ei waith, o fewn cyd-destun y fframwaith cyfreithiol y mae'n gweithio oddi mewn iddo.

Ymateb : Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sylfaen ar gyfer datblygu a chyflwyno polisïau, rhaglenni a gwasanaethau yng Nghymru.

Fel un o wasanaethau uniongyrchol Llywodraeth y Cynulliad, mae CAFCASS CYMRU yn sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn greiddiol i'w bolisïau a'i weithdrefnau gweithredol. Bydd ein Saith Nod Craidd a'n hagenda Gweithredu'r Hawliau yn parhau i fod yn sail i waith ymarferwyr CAFCASS CYMRU, a byddant yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn holl hyfforddiant, canllawiau a chyhoeddiadau CAFCASS CYMRU yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod Gweinidogion Cymru'n sicrhau bod Llywodraeth y DU yn gwbl ymwybodol bod angen i CAFCASS Cymru weithredu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn trafod gyda Gweinidogion y DU sut y gellir sicrhau bod hawliau plant mewn achosion teulu a gwasanaethau CAFCASS yng Nghymru'n cael eu gweithredu o fewn fframwaith sy'n seiliedig ar hawliau.

Ymateb : Derbyn

Mae fy rôl fel cydgadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol Cyfiawnder Teulu yn darparu llwyfan effeithiol i mi allu parhau i ddylanwadu ar faterion a gadwyd yn ôl a sicrhau bod ein dull gweithredu ar gyfer plant a theuluoedd, sy'n seiliedig ar hawliau, wrth wraidd y System Cyfiawnder Teulu.

Gweledigaeth y Bwrdd Cenedlaethol Cyfiawnder Teulu ar gyfer cyfiawnder teulu yw rhoi plant wrth wraidd y system, ac mae hynny'n adlewyrchu Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad yn benodol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylid cryfhau ac egluro rôl reoli swyddogion CAFCASS mewn perthynas â gwarcheidwaid plant, gan roi mwy o bwyslais ar sicrhau ansawdd gwaith achos unigol.

Ymateb : Derbyn

Mae cael trefn gadarn ar gyfer llywodraethu a sicrhau ansawdd effeithiolrwydd sefydliad, ei staff a'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu'n hanfodol ym mhob sefydliad cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r cyhoedd hyder yn y gwasanaeth y maent yn ei gael.

Mae gan CAFCASS CYMRU nifer o drefniadau sicrhau ansawdd ar waith, ac mae datblygiadau pellach ar y gweill. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae Fframwaith Gwella a Sicrhau Ansawdd newydd wedi'i gyflwyno'n ddiweddar, ac mae wedi asesu a blaenoriaethu gwelliannau ar gyfer y dyfodol.
- Bydd Safonau Gwasanaeth newydd, a fydd yn egluro'r hyn y gall defnyddwyr gwasanaeth ei ddisgwyl, yn cael eu cyhoeddi'n fuan.
- Mae'r trefniadau sicrhau ansawdd presennol yn cynnwys asesu safon adroddiadau a chynnal cyfarfodydd goruchwylio ac adolygu perfformiad â Chynghorwyr Llysoedd Teulu.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi arolygiad o CAFCASS CYMRU gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y fframwaith arolygu wedi'i seilio ar ein Saith Nod Craidd, a bydd yn ystyried canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a'u profiad o'r gwasanaeth.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod swyddogion CAFCASS yn cydweithio â'r eiriolwyr sydd eisoes gan blant lle bynnag y mae hynny'n bosibl ac yn annog gwarcheidwaid cyfreithiol i wneud yr un peth.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylai swyddogion CAFCASS hysbysu plant ynghylch bodolaeth gwasanaethau eirioli annibynnol, yn enwedig gwasanaeth eirioli newydd Llywodraeth Cymru pan fydd wedi ei sefydlu'n llawn, ac annog gwarcheidwaid cyfreithiol i wneud yr un peth.

Ymateb : Derbyn

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu defnyddio gwasanaethau eirioli. Mae'r dyhead hwn yn dechrau cael ei wireddu drwy'r Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol, oherwydd bydd llinell gymorth gwasanaeth eirioli a chynghori cenedlaethol ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yn ddiweddarach eleni.

Mae canllawiau ac adnoddau ymarfer cyfredol mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn pwysleisio'r rolau a'r berthynas bwysig rhwng CAFCASS CYMRU, y plentyn a'i Swyddog Adolygu Annibynnol, gan gynnwys achosion pan fo eiriolwyr eraill yn ymwneud â'r plentyn.

Bydd CAFCASS CYMRU yn adeiladu ar ei berthynas bresennol ag eiriolwyr annibynnol er mwyn sicrhau bod dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u hystyried bob amser. Bydd CAFCASS CYMRU yn ystyried yr angen i ffurfioli hynny drwy gytundebau, er mwyn sicrhau bod y mater hwn yn cael sylw.

Mae CAFCASS CYMRU yn brif ddarparwr gwasanaeth eirioli uniongyrchol yn ei rinwedd ei hun yng nghyd-destun achosion llysoedd teulu. Fodd bynnag mae'n briodol i CAFCASS CYMRU roi gwybod i blant am unrhyw gymorth sydd ar gael iddynt, a bydd y Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol newydd yn wasanaeth ychwanegol y bydd Cynghorwyr Llysoedd Teulu yn cyfeirio pobl ato.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir sut y bydd yn darparu cefnogaeth eirioli annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn achosion llysoedd teulu, gan amlygu'r gwasanaethau a gaiff eu darparu gan fodel Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau eirioli a sut y bydd hyn yn cyd-fynd â'r gwasanaeth eirioli a ddarperir gan CAFCASS Cymru eisoes.

Ymateb : Derbyn

Bydd hynny'n cael ei ystyried yn rhan o'r llinynnau gwaith datblygu yn y fframwaith eirioli cenedlaethol.

Bydd datblygu gwasanaethau eirioli ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ymwneud ag achosion llysoedd teulu yng Nghymru'n destun ymarfer ymgynghori eang â phlant, gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr a'r farnwriaeth er mwyn sicrhau eglurder o ran diben a sicrhau bod y gwasanaethau a ddatblygir yn cyd-fynd â'r gwasanaethau eirioli sy'n bodoli eisoes.

Bydd CAFCASS CYMRU yn gweithio gydag Uned Eirioli Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau ei fod yn cael y manylion diweddaraf am ddatblygiadau, a bydd yn rhoi gwybod i blant a phobl ifanc am y datblygiadau hynny gan gynnwys y Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol. Bydd deunyddiau hyrwyddo'n cael eu cynhyrchu ar gyfer y Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol, a bydd CAFCASS CYMRU yn sicrhau eu bod ar gael.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylai Gweinidogion sicrhau bod gan CAFCASS ddigon o adnoddau i sicrhau bod gan ei swyddogion yr amser a'r hyblygrwydd i ddarparu gwasanaeth wedi ei deilwra sy'n canolbwyntio ar y plentyn i blant a phobl ifanc, sy'n cael ei arwain gan anghenion a gofynion unigol y plentyn neu'r person ifanc, ac sy'n sicrhau bod eu sylwadau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu canfod a'u hadrodd arnynt.

Ymateb : Derbyn mewn Egwyddor

Mae adnoddau ychwanegol sylweddol wedi eu darparu ar gyfer CAFCASS CYMRU yn 2009/10, ac mae staff ychwanegol wedi'u penodi. Mae'r galw ar draws y System Cyfiawnder Teulu wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn ein hadolygiad o ddyraniadau cyllideb Llywodraeth y Cynulliad. Os bydd pwysau'n ymddangos o ganlyniad i swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli, byddwn yn parhau i sicrhau bod goblygiadau o ran adnoddau'n cael eu gwerthuso'n effeithiol a bod Llywodraeth y DU yn darparu ar eu cyfer.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon ac effeithiol o safon ar draws Cymru, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, drwy fabwysiadu agwedd sy'n pwysleisio ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn parhau i gynnal ein hymrwymiad i wireddu ein hagenda ar gyfer plant, sy'n seiliedig ar hawliau, drwy fuddsoddi'n effeithiol gan sicrhau gwerth am arian yn y sefyllfa economaidd sydd ohoni.

Goblygiadau Ariannol

Bydd goblygiadau o ran adnoddau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn rhan o drafodaethau blynyddol ynghylch y gyllideb.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod CAFCASS yn archwilio ei arferion gweithio i sicrhau y caiff dull cyson ac addas ei fabwysiadu wrth gysylltu â phlant, aelodau teuluoedd ac asiantaethau eraill.

Ymateb : Derbyn

Mae Polisïau a Gweithdrefnau Gweithredol, Cyfarwyddyd Ymarfer, a Safonau a Chymwyseddau Proffesiynol CAFCASS CYMRU yn cyfeirio'n glir at yr arferion gweithio sy'n ofynnol gan ei ymarferwyr wrth gysylltu â phlant, teuluoedd ac asiantaethau eraill.

Bydd y meysydd hyn yn cael sylw pellach yn rhan o Fframwaith Gwella a Sicrhau Ansawdd newydd CAFCASS CYMRU a'r Safonau Gwasanaeth, fel yr amlinellwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 3.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod CAFCASS yn sefydlu timau amlddisgyblaeth i gynnal asesiadau i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol, seicolegwyr plant a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a therapyddion profiadol yn rhan o'r asesiadau fel sy'n addas.

Ymateb : Derbyn mewn Egwyddor

Mae canllawiau statudol a threfniadau newydd dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a weithredwyd y llynedd yn cyflwyno mwy o fanyldeb ac atebolrwydd i achosion. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, CAFCASS CYMRU ac eraill, megis y GIG a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, fabwysiadu agwedd amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol at wella asesiadau, rheoli gofal ac adolygu cynlluniau gofal.

Mae'r canllawiau'n darparu cyfarwyddyd clir ynghylch dyletswyddau asiantaethau eraill o safbwynt cyfrannu at ddatblygu asesiad cyfannol a chadarn a chynllun gofal o safon. Bydd y gweithdrefnau newydd yn cael eu mesur o sawl safbwynt drwy fframwaith/dangosyddion perfformiad Llywodraeth y Cynulliad a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac arolygiadau AGGCC.

Materion i'r llys yw'r angen am dystion arbenigol a gwaith comisiynu tystion arbenigol i ddarparu cyngor arbenigol, ac nid ydynt wedi'u datganoli.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod CAFCASS yn sicrhau ei fod yn meithrin perthynas gref â'r asiantaethau partner eraill er mwyn cefnogi'r angen am fwy o weithio rhwng asiantaethau mewn perthynas â theuluoedd lle mae trais domestig yn broblem.

Ymateb : Derbyn

Mae camdriniaeth ddomestig yn annerbyniol; mae'n dinistrio teuluoedd a gall effeithio'n ddwfn ar blant. Fel un o nifer o bartneriaid allweddol, mae gan CAFCASS CYMRU rôl hollbwysig i'w chwarae o safbwynt gweithredu ar sail cynllun gweithredu strategol Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig a sicrhau bod plant sy'n byw mewn sefyllfaoedd o'r fath yn cael eu hamddiffyn a'u cynorthwyo.

Cryfhaodd newidiadau yn 2006 rôl CAFCASS CYMRU mewn perthynas â chyfraith breifat i gynnal asesiadau risg ar gyfer plant a allai fod mewn perygl oherwydd camdriniaeth ddomestig. Mae CAFCASS CYMRU hefyd yn darparu cyngor i'r llysoedd ynghylch addasrwydd gweithgareddau cyswllt er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad treisgar unigolyn.

Wrth ddiogelu plant a chynorthwyo teuluoedd i newid ymddygiad, mae CAFCASS CYMRU wedi datblygu nifer o adnoddau gan gynnwys y canlynol:-

- Pecyn Adnoddau ac Asesu Camdriniaeth Ddomestig er mwyn galluogi ei ymarferwyr i adnabod camdriniaeth ddomestig, asesu'r peryglon a'r effaith gysylltiedig, ac adrodd yn briodol ynghylch eu pryderon a'u hasesiadau wrth wasanaethau cymorth lleol;

- protocolau i'w gwneud yn bosibl rhannu gwybodaeth â'r Heddlu ac awdurdodau lleol os oes pryderon wedi'u mynegi.

Mae CAFCASS CYMRU hefyd yn gyfrannwr allweddol i grŵp trawsbortffolio, sy'n gweithio i adeiladu gallu o safbwynt yr ystod o raglenni sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am gamdriniaeth ddomestig, er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad treisgar; ac sy'n ystyried y ffordd orau o gryfhau'r cysylltiadau ar draws asiantaethau statudol allweddol ac asiantaethau eraill o ran rhannu gwybodaeth a chyflwyno dull gweithredu cydlynol ar gyfer ymdrin â chamdriniaeth ddomestig.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod CAFCASS yn sicrhau y defnyddir eiriolwyr annibynnol drwy wasanaeth eirioli newydd Llywodraeth Cymru i feithrin perthynas â phlant ac i'w helpu i gyfleu eu safbwyntiau wrth gynnal asesiadau o blant ifanc iawn neu rai sy'n agored i niwed.

Ymateb : Derbyn mewn Egwyddor

Mae ymarferwyr CAFCASS CYMRU yn fedrus ac yn brofiadol o safbwynt meithrin perthynas â phlant a phobl ifanc, ac maent yn addasu eu dull gweithredu i adlewyrchu galluoedd cronolegol, datblygiadol a gwybyddol plant a phobl ifanc unigol.

Mae Cynghorwyr Llysoedd Teulu hefyd yn defnyddio unrhyw gymorth arbenigol sydd ei angen ar y plant y maent yn gweithio gyda nhw. Mae eiriolwyr annibynnol yn darparu dealltwriaeth a chyngor amhrisiadwy i gynorthwyo ymarferwyr wrth iddynt lunio argymhellion ac adrodd yn eu cylch wrth y llysoedd – argymhellion sy'n adlewyrchu dymuniadau, teimladau a buddiannau'r plentyn dan sylw.

Mae fy ymatebion i Argymhellion 4 i 6 hefyd yn egluro fy nghynigion mewn perthynas â'r Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod CAFCASS yn cymryd camau brys i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth o safon uchel i blant a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg, grwpiau lleiafrifol ethnig a theuluoedd sydd â phlant gydag anawsterau dysgu, anableddau neu lawer o anghenion.

Ymateb : Derbyn

Mae CAFCASS CYMRU wedi cwblhau dadansoddiad o sgiliau Cymraeg er mwyn bodloni unrhyw alw posibl. Bydd hynny'n sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth sy'n dymuno cael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu cael gwasanaeth o'r fath.

Mae gwasanaethau cyfieithu a dehongli ar gyfer ieithoedd lleiafrifol (gan gynnwys laith Arwyddion Prydain) ar gael i CAFCASS CYMRU hefyd, pan fo anghenion ieithyddol plant a'u teuluoedd yn golygu bod angen gwasanaethau o'r fath neu'n golygu y gwneir cais amdanynt.

Bydd gwaith diwallu anghenion grwpiau amrywiol a lleiafrifol yn cael ei ystyried yn rhan o'r trefniadau arolygu arfaethedig gan AGGCC.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod Gweinidogion Cymru'n diwygio'r canllawiau statudol i sicrhau y caiff CAFCASS Cymru ei gynrychioli ar bob bwrdd diogelu plant lleol.

Ymateb : Derbyn

Caiff CAFCASS CYMRU ei gynrychioli ar bob Bwrdd Lleol Diogelu Plant yng Nghymru fel yr argymhellir gan ganllawiau statudol Llywodraeth y Cynulliad "*Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*".

Cyhoeddwyd "*Working Together*" yn 2006, ac mae'n egluro'r trefniadau sy'n rheoli proses sefydlu a gweithredu Byrddau Lleol Diogelu Plant er mwyn sicrhau bod asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn cydweithredu i ddiogelu a hybu lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed.

Mae'r canllawiau'n nodi'n glir y dylai aelodaeth Byrddau Lleol Diogelu Plant gynnwys cynrychiolaeth o CAFCASS CYMRU, o ystyried dyletswydd statudol CAFCASS CYMRU i ddiogelu a hybu lles plant.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylai Gweinidogion Cymru ystyried, gyda'r canolfannau cyswllt yng Nghymru a'r NACCC, y ffordd orau o gynrychioli a chefnogi'r canolfannau yng Nghymru ar lefel Cymru gyfan ac yng nghyd-destun ehangach y DU.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod CAFCASS yn cynnig trefniadau cyllido tair blynedd ar unwaith i'r canolfannau cyswllt plant yng Nghymru y maent eisoes yn eu cyllido ar lefel eu trefniadau cyllido presennol.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod CAFCASS a Gweinidogion Cymru yn llunio strategaeth gyllido ar gyfer yr holl ganolfannau cyswllt plant yng Nghymru, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn eu cyllido ar hyn o bryd, sydd wedi ei seilio ar yr egwyddorion a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Ymateb : Derbyn

Mae canolfannau a gwasanaethau cyswllt yn galluogi rhieni nad ydynt yn byw gyda'u plant, ac aelodau'r teulu ehangach, i gynnal perthynas â phlant yn ystod amseroedd anodd yn eu bywydau. Mae'r galw am gymorth wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae nifer o ddarparwyr o bob cwr o'r sector gwirfoddol a'r sector preifat wrthi'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad i ymwneud â phlant a theuluoedd a rhoi cymorth iddynt.

Rwyf wedi comisiynu CAFCASS CYMRU i baratoi gwerthusiad o effeithiolrwydd y trefniadau presennol, gan gynnwys y ddarpariaeth o ran cyllid, er mwyn gweld sut y gellir sicrhau darpariaeth gytbwys o ran gwasanaethau cyswllt ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad am sicrhau bod gwella gwasanaethau cyswllt yn sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer darparwyr, ac yn adeiladu ar ein cyflawniadau a'n buddsoddiad mewn gwasanaethau prif ffrwd megis Dechrau'n Deg, Cymorth, a chanolfannau plant integredig sydd ar gael i blant a theuluoedd.

Mae datblygu, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau i deuluoedd yn rhan o bortffolios nifer o Weinidogion, yn enwedig y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Byddaf am sicrhau bod unrhyw gynigion yn gyson â'u blaenoriaethau a'u cyfrifoldebau nhw.

Mae cysylltiadau da wedi'u creu â'r Gymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC). Mae CAFCASS CYMRU eisoes wedi comisiynu NACCC i ddarparu hyfforddiant a chymorth dwys i'r saith canolfan sydd wedi'u contractio i ddarparu Cyswllt dan Oruchwyliaeth, er mwyn hwyluso achrediad ag NACCC. Bydd NACCC hefyd yn gweithio gyda'r un ar ddeg o Ganolfannau Cyswllt sydd wedi'u contractio i ddarparu Cyswllt â Chymorth, i'w galluogi i adnewyddu neu ennill achrediad.

Cynhelir trafodaethau pellach â NACCC ynghylch cynrychiolaeth i aelodau'r Gymdeithas, a'r berthynas â'r rheini nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas.

Goblygiadau Ariannol

Dim ar hyn o bryd. Bydd goblygiadau o ran adnoddau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn rhan o drafodaethau blynyddol ynghylch y gyllideb.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylai Gweinidogion Cymru ystyried sut y gellir darparu ystod o wasanaethau cymorth uniongyrchol wedi eu cydgysylltu ar lefel genedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc y mae eu rhieni yn gwahanu, neu y mae gwrthdaro neu drais domestig o fewn eu teuluoedd, a'r rôl y dylai CAFCASS ei chwarae mewn cyfarwyddo plant a phobl ifanc tuag at y gwasanaethau hyn.

Ymateb : Derbyn

Byddaf yn ystyried hyn ochr yn ochr â chanlyniadau gwerthusiad CAFCASS CYMRU o wasanaethau cyswllt, y tynnwyd sylw ato yn fy ymateb i Argymhellion 14 i 16.

Mae CAFCASS CYMRU mewn sefyllfa dda i hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth a hybu mwy o gydweithrediad rhwng y llysoedd, partneriaethau statudol a sectorau eraill. Mae cyswllt CAFCASS CYMRU â phlant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill yn golygu ei fod mewn sefyllfa i gyfeirio pobl at wasanaethau a gwneud defnydd effeithiol o strategaethau a rhaglenni presennol megis Dechrau'n Deg, Cymorth, y Fframwaith Eirioli, a'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylai CAFCASS Cymru ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfranogi yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

Ymateb : Derbyn

Mae Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc bresennol CAFCASS CYMRU wrthi'n cael ei hailddatblygu er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn perthynas â CAFCASS CYMRU.

Yn yr hydref bydd digwyddiadau sy'n ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc yn cynorthwyo i ddatblygu cynllun gweithredu'n unol â Safonau Cyfranogiad Cymru Gyfan.

Bydd CAFCASS CYMRU hefyd yn defnyddio Consortiwm Cyfranogiad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod datblygiadau'n parhau i adlewyrchu arfer da, yn enwedig o safbwynt datblygu nod barcud ar gyfer safonau rhyngasiantaethol sy'n ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylid llunio dangosyddion perfformiad sydd wedi eu gwneud yng Nghymru, sy'n cynnwys Gweinidogion y DU fel sy'n angenrheidiol, rhwng Llywodraeth Cymru a CAFCASS ar frys sy'n dangos yn glir atebolrwydd CAFCASS i Weinidogion Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â'r dangosyddion hyn.

Ymateb : Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Cynllun Gweithredol CAFCASS CYMRU yn parhau i restru ystod o ddangosyddion perfformiad â thargedau i'w cyrraedd yn ystod y flwyddyn.

Bydd y trefniadau arolygu arfaethedig yn galluogi Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i adrodd ynghylch perfformiad a safonau gwasanaeth CAFCASS CYMRU ar draws pob agwedd ar y modd y mae'n gweithredu. Bydd gwaith dadansoddi tystiolaeth adroddiadau arolygu, barn defnyddwyr gwasanaeth, a'r Fframwaith Gwella a Sicrhau Ansawdd oll yn chwarae rôl allweddol o safbwynt datblygu ac arddangos cynlluniau gwella perfformiad a mesurau perthnasol a fydd yn cyfarwyddo dull gweithredu CAFCASS CYMRU ac yn ychwanegu gwerth ato.

Gellir rhoi sylw i amgylchiadau ac anghenion penodol Cymru drwy'r Bwrdd Cenedlaethol Cyfiawnder Teulu, yn enwedig pan fo hynny'n ymwneud â datblygu mesur perfformiad o ran y system gyfan ar gyfer plant sy'n destun Achosion Llysoedd Teulu.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylai archwiliadau AGGCC o CAFCASS gynnwys ffocws clir ar gydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac y dylid eu cynnal yn rheolaidd.

Ymateb : Derbyn

Bydd llais a phrofiadau plant a theuluoedd yn nodwedd allweddol o'n fframwaith arolygu. Mae ein gwaith paratoi'n ymgorffori'r Saith Nod Craidd, a thrwy'r rheini'n ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn hefyd, yn y fframwaith arolygu.

Mae'r trefniadau hyn yn adeiladu ar gyfrifoldeb CAFCASS CYMRU i sicrhau bod ei swyddogaethau statudol yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a'i gyfrifoldeb i adrodd ynghylch ei berfformiad a'i gynlluniau ar gyfer gwella, sy'n adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd yn broses barhaus a ailadroddir, a bydd lefel yr arolygu'n gymesur â'r defnyddwyr gwasanaeth, profiadau yn y llysoedd a'r gwelliannau sydd eu hangen.

Bydd AGGCC yn dechrau arolygu CAFCASS CYMRU yn rheolaidd yn 2010/11.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer costau datblygu a gweithredu'r trefniadau arolygu drwy flaenraglen waith AGGCC.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylai archwiliadau AGGCC o CAFCASS ddefnyddio'r arbenigedd perthnasol sydd gan Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi mewn perthynas â'r rhyngberthynas â'r llysoedd a materion diogelu.

Ymateb : Derbyn mewn Egwyddor

Mae AGGCC yn ymwneud yn weithredol ag arolygiaethau eraill wrth ddatblygu'r fframwaith, gan gynnwys y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) sydd bellach yn cyflawni swyddogaethau Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi. Bydd y cydweithredu hwn yn darparu synergedd ar draws ein safonau perthnasol, ac yn sicrhau bod modd cynnal dadansoddiad effeithiol o wasanaethau a'u meincnodi. Bydd hynny'n darparu cyfle pellach i werthuso perfformiad ac adrodd yn ei gylch, gan nodi materion allweddol y dylid rhoi sylw iddynt drwy'r broses cynllunio gwelliannau.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer costau datblygu a gweithredu'r trefniadau arolygu drwy flaenraglen waith AGGCC.

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Y dylai Bwrdd Cynghori CAFCASS chwarae mwy o ran yn y broses gynllunio mewn perthynas ag ystod llawer ehangach o faterion. Dylai ei gylch gorchwyl gynnwys y gallu i herio swyddogion ac uwch reolwyr CAFCASS ynglŷn â'r agweddau ar berfformiad y sefydliad sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod Llywodraeth Cymru'n adolygu ac yn egluro perthynas Bwrdd Cynghori CAFCASS gyda'r Gweinidogion.

Ymateb : Derbyn

Dylai'r Pwyllgor Cynghori fod yn ffynhonnell effeithiol o her a chymorth i CAFCASS CYMRU, os yw am fod o gymorth i'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli.

Mae adolygiad ynghylch aelodaeth wrthi'n cael ei gynnal, a bydd yn cael ei ymestyn i ystyried y canlynol:-

- effeithiolrwydd parhaus y cylch gorchwyl presennol;
- rôl yr aelodaeth o ran cynorthwyo'r Prif Weithredwr;
- priodoldeb trefniadau annibynnol ar gyfer adrodd wrth Weinidogion Cymru.

Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau'n gynnar yn y Flwyddyn Newydd, a bydd yn rhoi ystyriaeth lawn i gyfraniad cadarnhaol a sylweddol y Pwyllgor Cynghori i waith datblygu'r Fframwaith Gwella a Sicrhau Ansawdd; polisïau a gweithdrefnau gweithredol; y cylch cynllunio, y cynllun gweithredol a blaenoriaethau blynyddol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Darperir ar gyfer y costau yn y cyllidebau presennol.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod Llywodraeth Cymru'n ceisio cael trafodaethau ar frys â Llywodraeth y DU ynghylch ei chyfraniad i waith CAFCASS yng Nghymru.

Ymateb : Derbyn

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i egluro wrth Lywodraeth y DU y dylai unrhyw bwysau ar Weinidogion Cymru, CAFCASS CYMRU neu gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru o ganlyniad i ddeddfwriaeth nad yw wedi'i datganoli gael ei ystyried yn y setliad cyffredinol, neu drwy drosglwyddo adnoddau o Adrannau unigol y DU.

Rwy'n gydgadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol Cyfiawnder Teulu, sy'n borth ar gyfer datblygiadau o ran polisi a gweithdrefnau ar draws y System Cyfiawnder Teulu, ac y mae ei waith yn cynnwys craffu ar y goblygiadau o ran adnoddau a gwerthuso'r goblygiadau o ran adnoddau sy'n codi o unrhyw newidiadau arfaethedig.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod Llywodraeth Cymru'n ceisio newid yn y gyfraith er mwyn galluogi'r Comisiynydd Plant i wneud ymholiadau ynghylch y modd y mae CAFCASS yn cyflawni ei swyddogaethau.

Ymateb : Gwrthod

Mae'r darpariaethau deddfwriaethol presennol eisoes yn caniatáu i'r Comisiynydd Plant ystyried y modd y cyflawnir y swyddogaethau hynny sy'n perthyn i Weinidogion Cymru ac a gyflawnir gan CAFCASS CYMRU dan Ran 4 Deddf Plant 2004.

Bydd gwaith craffu ychwanegol ar berfformiad CAFCASS CYMRU yn digwydd drwy'r trefniadau arolygu yr wyf wedi'u rhoi ar waith, a'r broses gwyno.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r Comisiynydd, dan yr eithriad a ddarperir gan adran 77 Deddf Safonau Gofal 2000, wedi'i awdurdodi i ymchwilio i unrhyw fater neu adrodd ynghylch unrhyw fater pan fo'n destun achos cyfreithiol o flaen llys neu dribiwnlys, neu pan fo llys neu dribiwnlys wedi dod i benderfyniad yn ei gylch.

Pan fo unigolion yn anhapus â phenderfyniadau'r llys, mae trefniadau cyfreithiol yn bodoli i fynd i'r afael â'r rhain drwy'r system bresennol ar gyfer apeliadau a cheisiadau o'r newydd i'r llys.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 26

Mae'r Pwyllgor yn argymell:-

Bod CAFCASS yn cytuno ar drefniadau partneriaeth â'r Comisiynydd Plant a fyddai'n eu galluogi i weithio gyda'i gilydd mewn achosion lle mae plant wedi sôn am bryderon ynghylch CAFCASS wrth y Comisiynydd.

Ymateb : Derbyn

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddrafftio i egluro'r rolau a'r berthynas rhwng CAFCASS CYMRU a'r Comisiynydd Plant yn achos plant sy'n destun Achosion Llysoedd Teulu. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Weithredwr yn gweithio tuag at ddod i gytundeb ynghylch y testun llawn cyn diwedd y flwyddyn.

Goblygiadau Ariannol

Dim.